

Rhif: WG45095



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru  
Dogfen ymgynghori

## Rhesymoli'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant

Dyddiad cyhoeddi: 14 Rhagfyr 2022  
Camau gweithredu angenrheidiol: Ymatebion erbyn 7 Mawrth 2023

This document is also available in English.  
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

**OGI** (h) Hawlfraint y Goron

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar gynigion i ddiwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 er mwyn rhesymoli'r gweithdrefnau rheoleiddiol sy'n goruchwyllo systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant.

## Sut i ymateb

Gallwch e-bostio eich ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn i'r canlynol:

[enquiries.brconstruction@llyw.cymru](mailto:enquiries.brconstruction@llyw.cymru)

Os ydych yn ymateb yn ysgrifenedig, nodwch yn glir eich bod yn ymateb i'r ymgynghoriad ar:

“Systemau llethu tân mewn cartrefi gofal i blant.”

Dylid anfon ymatebion ysgrifenedig i'r cyfeiriad canlynol:

Systemau llethu tân mewn cartrefi gofal i blant  
Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Parc  
Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Pan fyddwch yn ymateb, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn cadarnhau p'un a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cyflwyno ymateb swyddogol ar ran sefydliad, ac yn cynnwys:

- eich enw,
- eich swydd (os yw'n berthnasol),
- enw'r sefydliad (os yw'n berthnasol),
- cyfeiriad (gan gynnwys cod post),
- cyfeiriad e-bost
- rhif ffôn cyswllt

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd ar gais.**

## Manylion cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â thîm Rheoliadau Adeiladu Llywodraeth Cymru drwy e-bostio:

[enquiries.brconstruction@llyw.cymru](mailto:enquiries.brconstruction@llyw.cymru)

I gael rhagor o wybodaeth:

Rheoliadau Adeiladu  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays,  
Caerdydd,  
CF10 3NQ  
Ffôn: 0300 062 8144

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gcontract yr ymgwymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdano chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

E-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

# Cynnwys

Cyflwyniad ..... 1

Cynigion ..... 1

Asesu effeithiau ..... 3

Y camau nesaf ..... 4

# Cyflwyniad

## Cefndir

1. Mae Rheoliadau Adeiladu 2010 (y Rheoliadau Adeiladu) yn rheoli mathau penodol o waith adeiladu, yn bennaf codi ac ymestyn adeiladau a darparu neu ymestyn gwasanaethau neu ffitiadau penodol, yn bennaf er mwyn sicrhau bod adeiladau yn cyrraedd safonau penodol o ran iechyd, diogelwch, llesiant, cyfleustra a chynaliadwyedd.
2. Mae Rheoliadau Adeiladu yn dylanwadu'n fawr ar y ffordd y caiff ein hadeiladau eu codi a'u defnyddio. Felly, maent yn helpu i sicrhau manteision sylweddol i gymdeithas. Yn 2014, cyflwynwyd y gofyniad ar gyfer systemau llethu tân awtomatig mewn rhai adeiladau penodol yng Nghymru drwy'r Rheoliadau Adeiladu.
3. Cynhaliwyd [ymgyngoriad](#) rhwng 20 Tachwedd 2020 a 4 Ionawr 2021 i ddiwygio'r Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas â systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant.
4. Amlinellodd yr ymgynghoriad y sefyllfa bresennol, lle mae'r Rheoliadau Adeiladu yn darparu'r prif gyfrwng ar gyfer gosod systemau llethu tân awtomatig mewn rhai adeiladau newydd penodol a rhai adeiladau penodol wedi'u haddasu. Mae'r Rheoliadau Adeiladu yn cynnwys cartrefi gofal oedolion, ond mae'r darpariaethau ar gyfer cartrefi gofal plant wedi'u cynnwys ym Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 (y Mesur). Nododd yr ymgynghoriad fod cynnwys y darpariaethau ar gyfer systemau llethu tân awtomatig mewn dau ddarn gwahanol o ddeddfwriaeth yn achosi dryswch ac anghysondeb wrth roi'r darpariaethau ar waith.
5. Er mwyn ymdrin â'r mater hwn, cynigiodd yr ymgynghoriad y dylid symud cartrefi gofal i blant o'r Mesur i'r Rheoliadau Adeiladu. Byddai hyn yn cynnig cysondeb rhwng y cartrefi gofal hyn a'r cartrefi gofal i oedolion lle mae systemau llethu tân awtomatig eisoes yn ofynnol gan y Rheoliadau Adeiladu.
6. Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth ym mis Mawrth 2021. Nododd mai'r bwriad o hyd oedd diwygio'r Rheoliadau Adeiladu i gynnwys y gofyniad ar gyfer systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi i blant. Nododd yr ymateb hefyd fod angen diwygiadau pellach i'r ddeddfwriaeth, a chaiff ail ymgynghoriad ei gyhoeddi i amlinellu cynigion pellach.

## Cynigion

7. Y bwriad cyffredinol o hyd yw diwygio'r Rheoliadau Adeiladu i gynnwys y gofyniad ar gyfer systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi i blant. Mae'r cynigion yn ceisio dyblygu'r darpariaethau yn y Mesur er mwyn gallu cyfeirio at ddarn unigol o ddeddfwriaeth. Er mwyn gwneud hyn, mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi tri diwygiad:

- Diwygiad i'r diffiniad o sefydliad yn rheoliad 2 (dehongli) i gynnwys y termau sy'n gysylltiedig â chartrefi gofal i blant;
  - Diwygiad i reoliad 37A (darparu systemau llethu tân awtomatig) i sicrhau ei fod yn berthnasol i gartrefi gofal i blant;
  - At ddibenion rheoliad 37A (darparu systemau llethu tân awtomatig), darparu bod newid defnydd perthnasol yn cynnwys newid defnydd perthnasol o gartref gofal i blant i gartref gofal i oedolion neu o gartref gofal i oedolion i gartref gofal i blant.
8. Er mwyn helpu i ystyried y newidiadau hyn, lluniwyd deddfwriaeth ddrafft a chaiff ei chynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

#### Diffiniad diwygiedig yn Rheoliad 2

9. Rydym o'r farn y gellir diwygio geiriad y diffiniad o sefydliad er mwyn rhoi mwy o eglurder o ran yr adeiladau y mae'n berthnasol iddynt. Mae'r newid arfaethedig yn newid rhywfaint o'r geiriad presennol gan ddefnyddio term o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, sef y ddeddfwriaeth sy'n goruchwyllo cartrefi gofal yng Nghymru. Darperir ar gyfer y newid hwn yn rheoliad drafft 2(2).

#### Diwygio Rheoliad 37A i sicrhau ei fod yn berthnasol i gartrefi gofal i blant

10. Caiff cartrefi gofal i blant eu cynnwys yn benodol o fewn rheoliad 37A o'r Rheoliadau Adeiladu. Byddai hyn yn cynnig cysondeb rhwng cartrefi gofal i blant a chartrefi gofal i oedolion lle mae systemau llethu tân awtomatig eisoes yn cael eu crybwyll yn benodol yn rheoliad 37A. Darperir ar gyfer hyn yn rheoliad drafft 2(3)(a).

#### Newid defnydd o gartref gofal i blant i gartref gofal i oedolion neu o gartref gofal i oedolion i gartref gofal i blant.

11. Mae Adran 6 o'r Mesur yn diffinio'r term 'preswylfa' at ddibenion y Mesur, ac yn rhestru cartrefi gofal i blant (adran 6(f)) a chartrefi gofal i oedolion (adran 6(c)) ar wahân. O dan y Mesur, mae newid defnydd yn berthnasol rhwng pob categori o breswylfa. Gan fod cartrefi gofal i oedolion a chartrefi gofal i blant wedi'u diffinio ar wahân a'u bod yn cael eu hystyried fel dau wahanol fath o adeilad o dan y Mesur, lle bydd y defnydd o un ohonynt yn newid i'r llall, caiff darpariaethau'r mesur eu rhoi ar waith. Felly, er mwyn symud y gofynion i Rheoliadau Adeiladu 2010, byddai angen i'r Rheoliadau Adeiladu hefyd ddarparu ar gyfer addasu un math o breswylfa (cartrefi gofal i oedolion neu blant) i fath arall (cartrefi gofal i blant neu oedolion).
12. Mae'r diwygiadau a ddarperir gan Reoliad drafft 2(3)(b) yn ailadrodd y ddarpariaeth hon a gynhwysir ym Mesur 2011 yn y Rheoliadau Adeiladu.
13. Diben y diwygiad hwn yw symud darpariaethau'r mesur heb effeithio ar ddarpariaethau eraill Rheoliadau Adeiladu 2010 mewn perthynas â newid defnydd. Mae Rheoliad newydd 37A(2A) a (2B) yn nodi'n glir mai dim ond i ofynion Rheoliad 37A y mae'r ddarpariaeth yn berthnasol, ac na fyddai unrhyw ofynion eraill sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau Adeiladu a bennir gan Reoliad 6 yn berthnasol i newid defnydd o'r fath.

Adeiladau dros dro

14. Nid yw'r Mesur Diogelwch Tân Domestig yn darparu unrhyw eithriad ar gyfer adeiladau dros dro. Mae hyn yn wahanol i Reoliadau Adeiladu 2010 sy'n eithrio (drwy reoliad 37A(5)) adeiladau dros dro â chyfnod defnydd bwriadedig o ddwy flynedd neu lai rhag y gofynion. Y bwriad polisi yw dyblygu darpariaethau'r mesur ar gyfer cartrefi i blant yn y rheoliadau, ond nid oes unrhyw fwriad i ddiwygio rheoliad 37A(5) ymhellach i ddileu'r eithriad ar gyfer adeiladau dros dro gan nad ystyrir y byddai hynny'n gymesur o dan yr amgylchiadau hyn.

Yr effaith ar y mesur

15. Bydd y newidiadau arfaethedig yn sicrhau y caiff y darpariaethau yn y mesur eu cynnwys yn y Rheoliadau Adeiladu, ac y byddant felly yn cael eu goruchwyllo gan gorff rheoli adeiladu. Bydd y trefniadau goruchwyllo hyn gan gyrrff rheoli adeiladu'r Rheoliadau Adeiladu ar gyfer pob adeilad yn golygu na chaiff y Mesur unrhyw effaith ymarferol ac y caiff ei ddiddymu pan fydd cyfrwng deddfwriaethol addas ar gael.

<b>C1</b>	A ydych o blaid y diwygiad arfaethedig i'r diffiniad yn Rheoliad 2 o'r Rheoliadau Adeiladu?	Ydw	Nac ydw	Ddim yn siŵr
		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Nodwch y rheswm dros eich dewis:				

<b>C2</b>	A ydych yn cytuno bod y diwygiadau i Reoliad 37A o'r Rheoliadau Adeiladu yn golygu ei fod yn gyfwerth â darpariaethau'r Mesur?	Ydw	Nac ydw	Ddim yn siŵr
		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Nodwch y rheswm dros eich dewis:				

<b>C3</b>	Os oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud am y cynigion, nodwch nhw yma.

## Asesu effeithiau

16. Nododd yr [ymgyngoriad](#) blaenorol gostau/manteision arfaethedig y cynnig. Nododd gan mai newid deddfwriaethol yn unig yw'r newid, nad oes unrhyw effeithiau ar gostau gan fod y gofynion yn parhau yr un peth. Ystyrir bod y tybiaethau hyn yn ddilys o hyd ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.



<b>C4</b>	A ydych yn cytuno bod yr asesiad effaith a gynhaliwyd yn flaenorol yn berthnasol o hyd?	Ydw	Nac ydw	Ddim yn siŵr
		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Os nad ydych, esboniwch a darparwch dystiolaeth o'r costau heb eu nodi, yn eich barn chi.

<b>C5</b>	Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
	Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

<b>C5a</b>	Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gellid llunio neu newid y camau gweithredu arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Y camau nesaf

- Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 7 Mawrth 2023. Mae'r cyfnod ymgynghori hwn yn fyrrach na chyfnod ymgynghori safonol Llywodraeth Cymru. Ystyrir bod cyfnod byrrach yn briodol gan fod yr ymgynghoriad wedi'i dargedu at gynulleidfa benodol a chyfyngedig iawn y gallai'r newid effeithio arni, sef darparwyr cyfleusterau gofal a chyrrff rheoli adeiladu. Mae'r cyrrff hyn wedi cael eu hysbysu am yr ymgynghoriad. Nid yw'n debygol y bydd gan randdeiliaid eraill ddiddordeb yn y mater penodol hwn a chynhaliwyd ymgynghoriad blaenorol ar y pwnc hwn.
- Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu dadansoddi a bydd Ymateb Llywodraeth Cymru yn dilyn.

